**CCJS07 Grŵp Llafur Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes | Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor | Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Grŵp Llafur Cymru | Evidence from: Welsh Labour Group

## Egwyddorion cyffredinol

**A ydych yn credu y dylai'r Senedd gyflwyno'r gallu i Aelodau rannu swyddi o ran rôl cadeiryddion pwyllgorau, ar sail cynllun peilot?**

Roedd mwyafrif sylweddol o Aelodau Llafur Cymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi cyflwyno'r gallu i Aelodau rannu swydd o ran rôl cadeiryddion pwyllgorau, ar sail peilot.

Mae cyflwyno'r gallu i rannu swydd yn y rôl hon yn un o'r ffyrdd allweddol y gallem helpu i hybu ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau Seithfed Senedd sy'n fwy cynrychioliadol ac amrywiol.

Fel y nodir yn glir yng nghanllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gall camau fel rhannu swyddi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau helpu Aelodau i gydbwyso eu rôl wleidyddol â chyfrifoldebau eraill, fel dyletswyddau gofalu neu rianta.

Credwn y byddai camau arloesol fel hyn yn helpu i annog ystod amrywiol o ymgeiswyr i sefyll i gael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd ac wedyn fel cadeiryddion pwyllgorau.

Byddai hefyd yn adlewyrchu arfer da sefydledig a'r datblygiadau sy'n digwydd mewn mannau eraill ble mae rhannu swyddi ar waith, gan gynnwys mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Beth rydych chi'n ei ystyried yw'r manteision a/neu'r anfanteision posibl a allai godi o ddau Aelod yn rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor?**

Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau a ymatebodd o'r farn y byddai llawer rhagor o fanteision nac o anfanteision yn deillio o rannu swydd.

Mae’r manteision hyn yn cynnwys darparu capasiti cadeirio ychwanegol, galluogi rhagor o Aelodau i ddatblygu arbenigedd a phrofiad mewn meysydd penodol, a helpu’r Aelodau i gydbwyso eu rôl yn y Senedd â chyfrifoldebau eraill.

Byddai rhannu swydd yn galluogi’r rhai dan sylw i ganolbwyntio ar wahanol feysydd polisi o fewn cylch gwaith y pwyllgor.

Yn achos y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er enghraifft, gallai un Aelod gymryd cyfrifoldeb am drafodion y Pwyllgor sy’n ymwneud ag iechyd a gallai’r llall gymryd cyfrifoldeb am y trafodion sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol.

Fel arall, awgrymwyd y gallai Aelod dan sylw gymryd cyfrifoldeb am sesiynau craffu cyffredinol a’r Aelod arall gymryd cyfrifoldeb am sesiynau ar ddeddfwriaeth.

Y naill ffordd neu’r llall, teimlwyd y byddai trefniadau fel y rhain yn helpu i gynyddu gallu cadeiryddion a’u pwyllgorau i ganolbwyntio ar yr amrywiaeth eang o feysydd polisi y maent yn gyfrifol am graffu arnynt.

Yn hollbwysig, mae’r Grŵp yn credu y byddai rhannu swydd yn annog ac yn cefnogi Aelodau sydd â chyfrifoldebau eraill, a allai fel arall fod â dim awydd neu wedi cael eu hatal rhag sefyll ar gyfer rôl cadeirydd pwyllgor.

O ran anfanteision, teimlai rhai ymatebwyr y gallai rhannu swydd arwain at rywfaint o ddryswch ynghylch cyfrifoldebau, o fewn y pwyllgor, ac o ran rhanddeiliaid allanol.

Roeddent hefyd yn teimlo y gallai anawsterau godi pe bai’r ddau Aelod yn anghytuno ar y ffordd yr ymdrinnir â busnes y pwyllgor, neu pe bai anghydbwysedd mawr o ran llwythi gwaith a chyfrifoldebau.

Awgrymodd un Aelod efallai mai’r ateb fyddai creu pwyllgorau ychwanegol neu bwyllgorau llai sydd â chylchoedd gwaith culach yn y Seithfed Senedd.

**Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod cynllun peilot yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir uchod. A ydych yn cytuno â’r egwyddorion hyn?**

Roedd y rhan fwyaf o’r Aelodau a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai’r cynllun peilot fynd yn ei flaen ar sail yr egwyddorion allweddol sydd wedi’u nodi.

Awgrymwyd hefyd, fodd bynnag, y byddai'r trefniant hwn yn gweithio'n well pe bai'r ddau gadeirydd yn aelodau o'r pwyllgor perthnasol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o bob agwedd ar waith y Pwyllgor ac yn ymwneud â hwy.

Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn gofyn am gydgysylltu ar ran y Grwpiau hynny sydd â hawl i ddau Aelod neu ragor ar bwyllgor - h.y. byddai angen i'r ddau Aelod gymryd y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r lleoedd sydd ar gael ar y pwyllgor hwnnw.

Rydym hefyd yn cydnabod na fyddai hyn yn bosibl mewn pwyllgorau llai neu ar gyfer grwpiau llai sydd â hawl i un lle yn unig ar bwyllgor. Yn yr achosion hyn, byddai'n rhaid i un o'r cadeiryddion yn y trefniant fod yn bresennol fel gwestai heb hawliau pleidleisio.

Yn olaf, mae'n bwysig iawn bod unrhyw benderfyniadau i fabwysiadu trefniadau rhannu swydd yn cael eu gwneud drwy gonsensws, a chyda chydsyniad y Cadeirydd/Cadeiryddion dan sylw.

**A ydych yn ystyried y byddai cyflwyno rhannu swydd ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau yn cael unrhyw effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar allu’r Senedd i gynnal gwaith craffu cyffredinol?**

Teimlai mwyafrif clir o’r Aelodau a ymatebodd y byddai rhannu swydd yn cael effaith gadarnhaol ar gapasiti craffu cyffredinol y Senedd, yn bennaf oherwydd y gallu i ddatblygu cyfrifoldebau arbenigol a’r gallu helaethach o ran cadeirio fel y disgrifiwyd yn flaenorol.

## Terminoleg

**O ystyried natur y cynnig, sut ydych chi'n credu y dylid ei ddisgrifio - 'rhannu swyddi o ran cadeiryddion pwyllgorau'; 'cadeiryddion pwyllgorau sy’n rhannu rôl'; neu rywbeth arall (nodwch)?**

Teimlai'r rhan fwyaf o'r aelodau y byddai geiriad arall yn well. Y dewisiadau eraill a awgrymwyd oedd:

1. 'Cadeiryddion pwyllgorau sy’n rhannu rôl'.
2. 'Cadeirydd craffu' a 'Chadeirydd deddfwriaeth' ar gyfer pob pwyllgor, pan ddewisir y model hwn, fel y disgrifiwyd yn flaenorol.
3. ‘Cyd-gadeiryddion’
4. ‘Cadeiryddion bob yn ail ar gyfer pwyllgorau’

Teimlai'r Aelodau y gallai'r teitlau hyn adlewyrchu statws y cadeiryddion ar y cyd yn well. Byddai'r Grŵp yn croesawu ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Busnes.

## Presenoldeb a dirprwyo

**A ddylai'r Aelod sy'n rhan o'r trefniadau rhannu swydd, ond nad yw'n cadeirio'r trafodion, allu bod yn bresennol yn y trafodion hynny fel gwestai (ond heb fod yn pleidleisio)?**

Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Grŵp yn credu y dylai'r Aelod sy'n rhan o'r trefniant rhannu swydd ond nad yw'n cadeirio allu bod yn bresennol fel gwestai fel yr awgrymwyd.

Pan fydd gan Grwpiau y nifer gofynnol o leoedd ar bwyllgor, fodd bynnag, dylent hefyd fod â'r gallu i wneud y ddau Aelod yn aelodau llawn â hawliau pleidleisio, am y rhesymau a amlinellwyd yn flaenorol.

Unwaith eto, rydym yn cydnabod y byddai hyn yn gofyn am gydgysylltu ar ran grwpiau sydd â hawl i ddau neu ragor o leoedd ar y pwyllgor, er mwyn cynnal cydbwysedd gwleidyddol.

Yn achos grwpiau sydd â hawl i un lle yn unig ar y pwyllgor perthnasol, byddai'n rhaid i un o'r cadeiryddion hyn fod yn bresennol fel gwestai pwyllgor heb hawliau pleidleisio, eto er mwyn cynnal cydbwysedd gwleidyddol.

**A ydych yn ystyried y gallai presenoldeb y ddau gael unrhyw effaith ar gydbwysedd gwleidyddol y pwyllgor?**

Os bydd yr Aelod nad yw'n cadeirio yn bresennol fel gwestai, nid ydym yn credu y bydd hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gydbwysedd gwleidyddol.

Byddai'r rhai sy'n bresennol yn rhinwedd y swydd hon yn gwneud hynny i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o bob agwedd ar waith y Pwyllgor.

Ni fyddem yn rhagweld y byddent yn chwarae rhan weithredol yn y trafodion pe na baent yn y gadair ac yn bresennol fel gwestai.

**A ddylai'r Aelod sy'n rhan o'r trefniadau rhannu swydd, ond nad yw'n cadeirio'r trafodion, allu gweithredu fel diprwy ar ran aelod arall o'r pwyllgor (o'r un grŵp)?**

Mae'r Grŵp yn cytuno y dylai'r Aelod nad yw'n cadeirio trafodion allu gweithredu fel dirprwy ar ran Aelod arall o'r un grŵp, yn enwedig gan y byddai'n dod â phrofiad hynod berthnasol i'r trafodion.

O ystyried y cyfyngiadau o ran amser sydd ar Aelodau, gan gynnwys eu hymrwymiadau ar bwyllgorau eraill, rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig bod grwpiau plaid yn cael yr hyblygrwydd mwyaf posibl wrth nodi dirprwyon.

## Eithriadau

**A ydych o'r farn y dylid eithrio unrhyw bwyllgorau presennol o’r ddarpariaeth i Aelodau rannu swydd yn rôl cadeirydd y pwyllgor, yn ychwanegol at y Pwyllgor Busnes a Phwyllgor y Llywydd?**

Teimlai'r Aelodau fod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gofyn am barhad gwaith penodol o ran y Cadeirydd ac Aelodau eraill y Pwyllgor, ac felly y dylid ei eithrio ar hyn o bryd.

Gallai dyletswyddau'r Pwyllgor, fel y'u nodwyd yn y cyfansoddiad presennol, hefyd ei gwneud hi'n anodd neilltuo meysydd cyfrifoldeb penodol yn daclus i'r Aelodau sy'n rhan o'r trefniant rhannu swydd.

## Protocol

**A ddylid disgwyl i'r ddau Aelod sy'n rhannu swydd cadeirydd pwyllgor gytuno ar brotocol yn nodi eu ffyrdd o weithio, a’i gyhoeddi?**

Ar yr amod bod y ddau gadeirydd, aelodau'r pwyllgor a'r tîm clercio i gyd yn gwybod yn sicr beth yw’r ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt ac unrhyw raniad o ran cyfrifoldebau, teimlai'r rhan fwyaf o Aelodau'r Grŵp na fyddai angen cyhoeddi protocol yn ffurfiol.

Byddai’r dull hwn yn helpu i sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ganiatau unrhyw newidiadau tymor byr i’r trefniadau hyn, er mwyn ymdrin â materion fel salwch neu gyfrifoldebau gofalu.

Dylid parhau i adolygu’r dull gweithredu hefyd, gan gynnwys a oes angen rhagor o gysondeb ar draws y pwyllgorau yn y dyfodol, yn dilyn asesiad o’r cynllun peilot.

**A ddylai fod yn ofynnol i gadeiryddion pwyllgor sy’n rhannu swydd ymgynghori ar unrhyw brotocol neu gytuno arno gyda'r pwyllgor?**

Byddem yn disgwyl i gadeiryddion pwyllgorau sy’n rhannu swydd drafod eu hoff ffyrdd o weithio ac unrhyw raniad cyfrifoldebau gyda’r pwyllgor llawn o’r dechrau un.

Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod holl Aelodau’r pwyllgor yn glir ynghylch sut y bydd y trefniadau’n gweithio’n ymarferol o’r dechrau.

## Cyflwyno cynnig

**A oes gennych unrhyw farn ynghylch pryd y dylid adolygu unrhyw gynllun peilot ar gyfer rhannu swydd yn rôl cadeirydd pwyllgor (er enghraifft, ar ôl cyfnod penodol o amser yn dilyn ethol neu**

**benodi cadeiryddion sy'n rhannnu swydd am y tro cyntaf, neu yn ystod blwyddyn olaf y Senedd nesaf?**

Ar ôl pwyso a mesur, teimla'r Aelodau y dylid adolygu'r cynllun peilot ar ôl blwyddyn o weithredu yn dilyn ethol, neu benodi, y cadeiryddion cyntaf i rannu swydd.

**A ddylid hefyd ystyried unrhyw fodel amgen i rannu swydd cadeirydd pwyllgor, fel model cadeirydd / dirprwy gadeirydd?**

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch newid i fodel cadeirydd / dirprwy gadeirydd.

Un o'r prif bryderon oedd bod creu rôl dirprwy gadeirydd yn awgrymu bod cyfres fwy sefydlog o drefniadau, a allai golli rhai elfennau o'r hyblygrwydd sy'n un o fanteision amlwg y model rhannu swydd.

Byddai hyn hefyd, yn ein barn ni, i bob pwrpas yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau gadeirydd fod yn aelodau llawn o bwyllgor, na fyddai'n bosibl i bleidiau sydd â hawl i un lle yn unig ar bwyllgor.

Yn olaf, mae model cadeirydd / dirprwy gadeirydd yn awgrymu y byddai gan y Cadeirydd fwy o statws na'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n mynd yn groes i statws cyfartal sy'n nodwedd o'r model rhannu swydd.

## Sylwadau eraill

Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod y ddau Aelod yn cymryd rhan ar y cyd mewn unrhyw drafodaethau â rhanddeiliaid mewnol neu allanol, gan gynnwys Gweinidogion, a gynhelir y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

Mae hyn yn sicrhau bod y ddau Aelod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion, ac yn osgoi'r angen i ddyblygu o ran cynnal cyfarfodydd.  Byddem hefyd yn gofyn fod timau clercio pwyllgorau yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o roi'r cynllun peilot ar waith.